**CYNGOR BRO MORGANNWG**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A**
**LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**
**(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 3) 2026**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn gosod mannau parcio i bobl anabl yn y lleoliadau a nodir yn Atodlen 1 a dileu'r mannau parcio i bobl anabl yn y lleoliadau a nodir yn Atodlen 2 isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, a fydd yn cynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ar wefan y Cyngor yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf.IF998) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **dydd Gwener 8 Mei 2026** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:
**Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013**

**Atodlen 1**

**Man Parcio Arfaethedig i Bobl Anabl**
**Bendrick Road, Y Barri (31) (AX55)**
Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 29 a 31 tua'r gogledd-ddwyrain am tua 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/12/WS
**Church Road, Y Barri (35) (AS54)**
Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 35 a 37 tua'r de-orllewin am tua 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/28/WS
**Jenkin Street, Y Barri (9) (AS53)**
Ar ochr y de-ddwyrain o'r ffin rhwng rhifau eiddo 7 a 9 tua'r de-orllewin am tua 6 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/09/WS
**Jenner Road, Y Barri (32) (AV50)**
Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 19 metr tua'r de-orllewin o ganol cyffordd Glanmore Crescent tua'r de-orllewin am tua 6.6 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/11/WS
**Jenner Road, Y Barri (51) (AW50)**
Ar ochr y de-ddwyrain o ffin gogledd-ddwyrain rhifau eiddo 51/49 tua'r de-orllewin am tua 6.6 metr.
Cyfeirnod y cynllun T/26/16/WS
**Station Street, Y Barri (59) (AW52)**
Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 59 a 61 tua'r de-ddwyrain am tua 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/13/WS
**Vale Street, Y Barri (20) (AX49)**
Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 22 a 20 tua'r de-ddwyrain am tua 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/14/WS
**King Street, Penarth (6) (AI65)**
Ar ochr y gogledd, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 5 a 6 tua'r dwyrain am tua 5.3 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/20/WS

**Cynnig i ddileu'r Man Aros Cyfyngedig dydd Llun i ddydd Sadwrn 8am-6pm 2 awr** dim dychwelyd o fewn 2 awr ac eithrio deiliaid trwydded, a rhoi Man Parcio i Bobl Anabl yn ei le

**Lower Morel Street, Y Barri (23) (AV53)**
Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 23 a 25 tua'r de-ddwyrain am tua 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/15/WS

**Woodlands Road, Y Barri (139) (AV51)**
Ar ochr y de-ddwyrain o bwynt tua 10 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â Regent Street, tua'r de-orllewin am tua 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/10/WS

## Atodlen 2

**Cynnig i ddileu Man Parcio i Bobl Anabl**

**Broad Street, Y Barri (81) (AW50)**
Ar ochr y gogledd-orllewin o bwynt 94 metr tua'r de-orllewin o'r gyffordd â Hilda Street i'r de-orllewin am 6.6 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/05/WS

**Church Road, Y Barri (46) (AS54)**
Ar ochr y de-ddwyrain o'r ffin rhwng rhifau eiddo 46 a 48 i'r de-orllewin am 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/18/WS

**Clifton Street, Y Barri (16) (AY49)**
Ar ochr y gorllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 14 a 16, tua'r de am 5.1 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/03/WS

**Jewel Street, Y Barri (70) (AV53)**
Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 68 a 70, tua'r de-orllewin am 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/07/WS

**Tynewydd Road, y Barri (111) (AT51)**
Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 109 a 111 tua'r gogledd-orllewin am 5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/04/WS

**Wynd Street, Y Barri (2) (AT53)**
Ar ochr y de-orllewin, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 2 a 4, tua'r gogledd-orllewin am 4.2 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/06/WS

**Andrew Road, Penarth (58) (AH62)**
Ar ochr y de, o'r ffin rhwng rhifau eiddo 56 a 58 tua'r gorllewin am 5.5 metr. Cyfeirnod y cynllun T/26/22/WS

Dyddiedig 16 Ebrill 2026
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.